Adroddiad Materion yn Codi ar gyfer Cyngor Cymuned Llandwrog Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

BDO

Cyflwyniad

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi i dynnu sylw Cyngor Cymuned Llandwrogat eitemau. Daeth y materion hyn i sylw BDO LLP yn ystod archwiliad y ffurflen flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

Efallai na fydd archwiliad y ffurflen flynyddol yn datgelu pob gwendid yn y systemau gan ei bod yn bosibl na fydd pob mater wedi dod i sylw'r archwilydd. Oherwydd hyn, efallai nad y materion a godwyd yw'r unig rai sy'n bodoli.

Mae'r materion a restrir isod yn cael eu hesbonio'n fanylach ar y dudalen/y tudalennau sy'n dilyn

Materion a godwyd

- Mae'r Cyngor wedi ateb 'Ydy' mewn camsyniad i'r cwestiwn ynghylch datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth yn Adran 2 y Ffurflen Flynyddol
- Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol
- Adran 1 - Nodyn Datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi gan fod mân gamsyniadau ar y ffurflen flynyddol yr ydym yn dymuno tynnu sylw'r Cyngor atynt er mwyn iddynt beidio â digwydd eto mewn blynyddoedd i ddod.

Adran 1 - Nodyn Datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Beth yw'r mater?

Nid yw'r cyngor wedi ateb blwch 14 ar gyfer 2018 mewn camsyniad yn Adran 1 y ffurflen flynyddol. Credwn, ar sail gwybodaeth y flwyddyn flaenorol, y dylai'r cyngor fod wedi ateb 'Amh'.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Nid yw'r datgeliad ar y ffurflen flynyddol wedi cael ei gwblhau, gan ein bod yn credu nad yw'r cyngor yn unig ymddiriedolwr i unrhyw elusen.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Dylai'r cyngor sicrhau ei fod, yn y blynyddoedd i ddod, yn ateb 'Na' neu 'Amh', i ddangos nad yw'r cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ac nad yw'n gyfrifol am reoli cronfeydd ymddiriedolaeth neu asedau.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor. Argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu ar y materion canlynol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei fframwaith statudol.

Mae'r Cyngor wedi ateb 'Ydy' mewn camsyniad i'r cwestiwn ynghylch datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth yn Adran 2 y Ffurflen Flynyddol

Beth yw'r mater?

Mae'r Cyngor wedi ateb 'Ydy' mewn camsyniad yn Adran 2 y Ffurflen Flynyddol.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Mae'r datgeliad ar y ffurflen flynyddol yn anghywir, gan nad yw'r cyngor yn unig ymddiriedolwr i unrhyw elusen.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Dylai'r cyngor wneud yn siŵr ei fod yn ateb 'Amh' yn y dyfodol, gan nad oes gan y cyngor unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag elusen.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Amherthnasol

Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol

Beth yw'r mater?

Nid yw'r cyngor wedi nodi'r cyfeirnod cofnodion a'r dyddiad ar gyfer cymeradwyo'r datganiadau cyfrifo a'r datganiad llywodraethiant blynyddol.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Nid yw'r ffurflen flynyddol wedi cael ei chwblhau'n llawn yn unol â'r gofynion.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Rhaid i'r cyngor sicrhau fod pob blwch perthnasol wedi ei gwblhau'n llwyr cyn anfon y ffurflen flynyddol i'w harchwilio.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'n sylw.

Dros ac ar ran
BDO LLP

Dyddiad:21 Medi 2019